Academi IAITH

Newyddlen: Tachwedd 2011

Gwasanaethau hyfforddi profiadol

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi darparu hyfforddiant i nifer fawr o gyrff amlycaf Cymru. Mae rhestr y cwsmeriaid diweddar yn cynnwys **cynghorau sir**, e.e Caerdydd, Conwy, Powys, Sir Gâr, Ceredigion, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg; **cyrff cyhoeddus**, e.e. Llywodraeth Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Gofal Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru; a **chyrff trydydd sector**, e.e Gweithredu dros Blant, Cyngor ar Bopeth, Tai Cymunedol Gwynedd, Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru a llawer mwy.

Gallwn deilwra'r hyfforddiant i'ch anghenion chi: hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith (HYI), gofal cwsmer dwyieithog, recriwtio a phenodi, gweithleoedd dwyieithog, datblygu dwyieithrwydd, gloywi iaith...
Mae gennym bron i 20 mlynedd o brofiad yn cynorthwyo cyrff i gyflwyno a datblygu eu defnydd o'r Gymraeg.

Yn ystod 2011 bu Steve Eaves yn darparu HYI i holl staff Venue Cymru yn Llandudno ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

I drafod eich gofynion hyfforddi neu i gomisiynu hyfforddiant, cysylltwch ag Elaine Davies ar **elaine.davies@iaith.eu** neu ffoniwch **01239 711668**.

Yn Hydref 2011 bu IAITH yn hwyluso grŵp ffocws ar becyn hyfforddiant ar y ddeddf iechyd meddwl newydd ar ran Prifysgol Lincoln

HYI Iechyd a Gofal

Mae **IAITH** yn cydweithio â **Pedair** i ddarparu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith yn y maes gofal, sesiynau sydd wedi hen ennill eu plwyf. Caiff y cyrsiau eu teilwra ar eich cyfer chi, beth bynnag eich maes. Yn ystod y 12 mis diwethaf, darparwyd cyrsiau mewn amryw o feysydd – tai, iechyd, gwasanaethau plant, gwasanaethau i bobl hŷn, darparu gwasanaeth mewn awdurdod lleol.

Dyma beth ddywedodd pobl yn dilyn cwrs Ymwybyddiaeth Iaith ym mis Medi 2011:

"Dyma gwrs ardderchog – yn dangos pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaeth."
"Sesiwn wirioneddol dda – gwerthfawr ar lefel weithredol a strategol."
"Roedd y cyfan yn dda iawn – deall yr hanes a'r cyd-destun cyfoes yn help mawr."

Hyfforddi hyfforddwyr HYI

Rydym hefyd yn rhedeg cwrs 3 diwrnod llwyddiannus iawn i bobl sy'n awyddus i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau i fedru cyflwyno neu hyfforddi ym maes Ymwybyddiaeth Iaith. Mae'r cwrs yma, sy'n cael ei redeg gan Elaine Davies a Clare Grist, wedi sefydlu ei hunan fel y cwrs safonol ar gyfer darpar hyfforddwyr HYI. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Elaine ar **01239 711668.**



Polisi a Chynllunio Iaith

O Chwefror 2012 bydd cyfle i ennill Tystysgrif ôl-radd mewn Polisi a Chynllunio Iaith. Darperir y dystysgrif gan IAITH ar y cyd ag Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd Prifysgol Y Drindod Dewi Sant. Ceir dau fodiwl o 30 credyd : Hanfodion Polisi a Chynllunio Iaith a Hyrwyddo'r Gymraeg. Darperir y cwrs gan Dr Kathryn Jones a Gareth Ioan, IAITH, gyda chefnogaeth Dr Christine Jones ar ran y Brifysgol.

Am fwy o wybodaeth am y cwrs cysylltwch â Dr Christine Jones ar 01570 424936.

Academi IAITH

Ar y gweill ar gyfer 2012

Mae'r seminarau a'r cynadleddau canlynol ar y gweill ar gyfer Gaeaf/Gwanwyn 2012.

- Seminarau rhanbarthol - Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011
- Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Trydydd Sector
- Cynhadledd: Dros y Gorwel – tirwedd newydd i'r Gymraeg
- Hyfforddi Hyfforddwyr HYI – cwrs 3 diwrnod